Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Adroddiad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu: Gwaith teg – y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a data graddfa tâl lefel uwch

Sut mae awdurdodau cyhoeddus yn cofnodi gwybodaeth am gyflog ac â yw'n hygyrch.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Tâl lefel uwch

Methodoleg

Canfyddiadau cyffredinol

Canfyddiadau'r sector

Canfyddiadau allweddol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

1. Mae’r papur hwn yn ategu uchelgais Cyngor Partneriaeth y Gweithlu i gyflawni gwaith teg a’i amcan o hyrwyddo tryloywder lefelau cyflog, annog cydraddoldeb a mynd i’r afael â’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau (Rhaglen Waith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu 2019-2020).

2. Mae’n cyd-fynd â nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015**; yn benodol, mae’n ategu nod llesiant Cymru mwy cyfartal. Mae’n ymwneud yn uniongyrchol â ‘**Ffyniant i Bawb**’, Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, yn 2017, yn enwedig thema allweddol economi Gymreig lewyrchus a diogel sy’n ‘mynd i’r afael ag anghydraddoldeb.’ Ymhellach, roedd argymhellion adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg yn glir ynghylch yr angen am ddata hygyrch cywir.

Mae’r adran ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ymwneud yn agos ag adolygiad Llywodraeth Cymru **o gydraddoldeb rhywiol**.

## Cefndir adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

3. Er 2011, bu’n ofynnol i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chofnodi pa gamau maent yn eu cymryd i fynd i’r afael ag ef (**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011** - Gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru, **Equal Pay Portal**). Er 2017, bu’n ofynnol i bob cyflogwr mawr ledled Prydain gyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau (**Gender pay gap reporting: overview**, Llywodraeth y DU). Nid yw’r rheoliadau hyn yn berthnasol i gyrff cyhoeddus Cymru gan eu bod yn dod o dan reoliadau 2011 yn barod.

4. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Cyflogadwyedd**, a oedd yn ei hymrwymo i weithredu i leihau’r bwlch cyflog

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhwng y rhywiau ac i ‘fonitro gwahaniaethau rhwng sectorau a galwedigaethau.

5. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Julie James AC y byddai Llywodraeth Cymru yn comisiynu Chwarae Teg i adolygu polisïau rhywedd a chydraddoldeb. Canfu’r adolygiad wendidau yn yr adroddiadau am fylchau cyflog rhwng y rhywiau.

6. Yn ôl adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2018 a gomisiynwyd fel rhan o’r adolygiad:

> “ “Bwriadwyd i Ddyletswydd Cydraddoldeb Benodol Cymru ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau fod y ddyletswydd gryfaf a mwyaf effeithiol o blith y dyletswyddau penodol ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y DU. Fodd bynnag, cafodd y ddyletswydd ei drafftio’n wael; daw bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau’ sy’n awgrymu niwtraliaeth, ac er mwyn dehongli’r ystyr a fwriadwyd yn wreiddiol, rhaid i’r ddyletswydd fod yn berthnasol i bedwar rheoliad... Nid yw’r canlyniadau a gyhoeddwyd i’w gweld yn amlwg, a bu systemau monitro yn wan.” ”

(**Rhoi cydraddoldeb wrth wraidd penderfyniadau**, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Alison Parken, 2018)

7. Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad dan y teitl ‘**Rhianta a chyflogaeth yng Nghymru**’ which recommended that:

> “ “Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data cyflogaeth sy’n ofynnol yn unol â dyletswyddau sector cyhoeddus Cymru mewn un lleoliad ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn fformat sy’n ei gwneud yn bosibl dadansoddi’r data yn rhwydd.” ”

8. **Mewn ymateb**, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai camau cynnar yn cael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

eu cymryd yn unol â’r argymhelliad hwn ac y byddant yn parhau i annog cyrff cyhoeddus i gyhoeddi’r data hwn yn agored ac mewn fformatau hygyrch.

9. Yn dilyn hynny, mae is-adran Gwybodaeth ac Ystadegau Llywodraeth Cymru ynghyd â’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi adolygu gweithrediad dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sy’n cynnwys adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau. Maent wedi trefnu seminarau ac wedi ysgrifennu at gyrff cyhoeddus Cymru yn gofyn iddynt gyhoeddi eu data cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus, sy’n cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn fformat agored ar eu gwefannau. Mae dros 40 o gyrff cyhoeddus wedi ymateb ac mae dolenni i’w data agored bellach yn cael eu coladu a’u cyhoeddi ar-lein - gweler isod (**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**, Stats Cymru). Fodd bynnag, nid yw pob un o’r sefydliadau hyn yn cynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn eu ffurflenni ar hyn o bryd. Anfonwyd llythyr arall ers hynny i gynyddu nifer y cyhoeddiadau a rennir. Gellid ychwanegu data pellach at y dudalen we hon, gan gynnwys data tâl lefel uwch.

Tabl 1: Nifer y sefydliadau fesul sector sydd wedi cyhoeddi dolenni i ddata dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus mewn fformat agored ar wefan StatsCymru, 2019:

- Byrddau iechyd: 9 o 9
- Llywodraeth leol: 12 o 22
- Parciau cenedlaethol: 1 o 3
- Prifysgolion: 7 o 8
- Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sydd â swyddogaethau gweithredol: 6 o 9

10. Ym mis Mawrth 2019 cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg ei adroddiad (**Gwaith Teg Cymru**) a nododd yn ei argymhellion:

> “Rydym yn cefnogi’r cynnig i gynnwys monitro’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel carreg filltir ac yn croesawu’r gwaith dichonolrwydd ar ymestyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

> y garreg filltir i gynnwys gwahaniaethau mewn cyflog sy’n gysylltiedig ag anabledd ac ethnigrwydd.” ”

11. Ym mis Medi 2019, cyhoeddwyd adolygiad Llywodraeth Cymru o rywedd a chydraddoldeb gan Chwarae Teg. Canfu mai’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau oedd ‘y pryder pennaf i fenywod yng Nghymru (**Cydraddoldeb Rhywedd: Mapio Llwybr I Gymru**).

Argymhellodd:

> “ “Dylai pob corff cyhoeddus gyhoeddi ei ddadansoddiad o’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn rhan glir a hygyrch o’i wefan ynghyd â choladu a chyhoeddi bylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd.” ”

12. Mae ein hadroddiad yn ystyried pa mor hygyrch yw’r data cyfredol. Mae’n ystyried a oedd data bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2017-2018 yn hygyrch ar y we pan geisiwyd ei gyrchu ym mis Awst a mis Medi 2019.

# Cefndir tâl lefel uwch

13. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi datganiad polisi tâl yn flynyddol yn nodi ei bolisïau sy’n ymwneud ag (a) tâl ei brif swyddogion, (b) tâl ei weithwyr ar y cyflog isaf ac (c) y perthynas rhwng tâl ei brif swyddogion a thâl ei weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion. Roedd hyn yn dilyn yr argymhellion a wnaed mewn adroddiad gan Will Hutton yn gynharach y flwyddyn honno.

14. Er 2011-2012 mae llawlyfr adrodd ariannol Trysorlys y Deyrnas Unedig – y canllawiau cyfrifyddu swyddogol i’r rhai sy’n trin arian cyhoeddus, gan gynnwys sefydliadau’r GIG – hefyd wedi mynnu bod sefydliadau sy’n adrodd yn cyhoeddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn eu cyfrifon blynyddol eu cymhareb cyflog uchaf i ganolrif16. Mae'r gwahaniaeth rhwng gofynion y Ddeddf Lleoliaeth a'r Llawlyfr Adrodd yn golygu ei bod yn anodd cymharu data cyflog uwch rhwng sectorau yn uniongyrchol.

15. Mae gan y ddwy set o reoliadau yr un nod: sicrhau tryloywder wrth bennu cyflog uwch a mynd i'r afael â phryderon am anghydraddoldeb a amlinellir yn **Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Cyhoeddus**.

16. Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad i dâl uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus ym mis Tachwedd 2013. Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru **femorandwm ar y pwnc** yn 2014 i lywio **adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**.

17. Gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 23 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, a derbyniwyd pob un ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn coladu data ar gyflog lefel uwch gan gyrff cyhoeddus Cymru. Mae nifer o'r argymhellion hyn yn parhau.

18. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllaw ar adrodd am dâl lefel uwch** yn 2015. Roedd hyn yn nodi y dylai pob corff sector cyhoeddus yng Nghymru (ac nid awdurdodau lleol a gwasanaethau tân yn unig) gyhoeddi datganiadau polisi tâl ac y dylai'r rhain nodi'r berthynas rhwng tâl swyddi uwch a thâl y gweithwyr ar y cyflog isaf.

19. Yn 2016 cyhoeddodd y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus **gyngor ac arweiniad ar gyflogau lefel uwch**. Canfu'r papur nad oedd hi'n hawdd cael gafael ar yr holl ddata gofynnol21. Yn yr un flwyddyn lluniodd Ochr Undebau Llafur Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ei adroddiad ar y mater hwn22. Yn hwn, gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu yn amlinellu pa gamau a chynnydd sy'n cael eu gwneud yn erbyn pob un o'r 23 argymhelliad, a ddarparwyd hwnnw maes o law. Yn ogystal, ysgrifennodd cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2016 at Lywodraeth Cymru i ddweud na fyddent 'yn gofyn am ddiweddariadau pellach'

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ar y mater (Llythyr ynghylch tâl Uwch Reolwyr gan Nick Ramsay, AC, Rhagfyr 2016).

20. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cyntaf o'i **hadroddiadau blynyddol ar dâl lefel uwch**, a oedd yn cynnwys data ar y bwlch cyflog rhwng y lefel uchaf a'r canolrif. Yn 2019, cyhoeddodd CCAUC ei **adroddiad ar gyflog lefel uwch mewn prifysgolion** yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru.

21. Ym mis Mawrth 2019, diffiniodd adroddiad y comisiwn Gwaith Teg 'gwobr deg' fel un o egwyddorion gwaith teg, a nododd mai un dangosydd allweddol yw a oes:

> “ 'tryloywder [o fewn sefydliad] mewn dosbarthiad cyflog gan gynnwys adrodd ar y gymhareb rhwng y tâl uchaf a'r canolrif o dâl eu gweithwyr a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â bylchau cyflog.” ”

Argymhellodd:

> “ “Rydym yn argymell bod data gweinyddol allweddol yn cael eu casglu'n systematig gan y Swyddfa Gwaith Teg er mwyn helpu i fonitro cynnydd a bod yn sail i'r adroddiad blynyddol ar Waith Teg yng Nghymru.” ”

(Gwaith Teg Cymru)

22. Mae gan Lywodraeth Cymru gynigion i gyflwyno egwyddorion tâl ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac mae ei swyddogion wedi nodi y gallai'r rhain fod yn gyfle i ategu gwell adroddiadau ar dâl (**cofnodion o'r Cydbwyllgor Gwaith**). At hynny, fel y nodwyd ym mharagraff 9, gellid ehangu tudalen we StatsCymru ar ddata dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i gynnwys dolenni at ddata pob corff cyhoeddus ar dâl uwch mewn fformat agored.

23. Mae'r papur hwn yn adeiladu ar y data a'r dadansoddiad yn yr adroddiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

blaenorol y cyfeiriwyd atynt uchod, yn enwedig o ran hygyrchedd a chysondeb y data.

## Methodoleg

23. Ffocws yr adroddiad hwn yw hygyrchedd a chysondeb y data y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu cyhoeddi.

24. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 fe wnaethom gynnal ymchwil desg ar hygyrchedd ar-lein setiau data allweddol, sef:

- y lluosyddion (neu'r cymarebau) rhwng y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf ym mhob sefydliad a'i gyflog canolrif ac isaf
- y bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau.

25. Fe wnaethom nodi hefyd a oedd datganiad polisi tâl yn hygyrch, a cheisiwyd ennill dealltwriaeth eang o ba mor hygyrch oedd data am y bwlch cyflog lefel uwch a rhwng y rhywiau i'r cyhoedd.

26. Wrth benderfynu pa gyrff i'w cynnwys yn yr ymarfer hwn, fe wnaethom benderfynu dilyn patrwm tebyg i Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad yn 2014 (tudalennau 21 a 24) a chynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a 'chyrff a gyllidir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a chyrff eraill (y Comisiynwyr Plant, Pobl Hyˆn a'r Gymraeg ac Estyn) a gyllidir gan Lywodraeth Cymru". Fe wnaethom hefyd gynnwys gwasanaethau tân ac achub, gan eu bod yn dod o dan ofynion Deddf Lleoliaeth 2011 i gynhyrchu cymarebau rhwng y tâl isaf ac uchaf.

27. Fe wnaethom ddefnyddio ymagwedd bod aelod o'r cyhoedd yn gofyn am yr wybodaeth hon. Fe wnaethom edrych am y data hwn gan ddefnyddio peiriannau chwilio i gribo gwefannau cyrff cyhoeddus. Ar ôl cam cwmpasu cychwynnol,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

penderfynwyd canolbwyntio ar ddata tâl lefel uwch 2017-18, gan mai hon oedd y flwyddyn roedd y mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi cyhoeddi data ar ei chyfer. Fe benderfynon ni ddewis 2018-19 fel y flwyddyn sampl o adrodd am fylchau cyflog rhwng y rhywiau, gan mai hon oedd y flwyddyn pan ddaeth rheoliadau a mecanwaith adrodd canolog llywodraeth y Deyrnas Unedig i rym, a fabwysiadwyd gan rai cyrff o Gymru. At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir data fel data sy'n 'hygyrch' os oedd modd i ni ddod o hyd iddo ar y we.

## Ein canfyddiadau: cyffredinol

28. Wrth ymgymryd â'n hymarfer o fewn Cyngor Partneriaeth y Gweithlu y mis hwn, gwelsom nad oedd lleoliad y data tâl lefel uwch yn gyson. Rhoddodd llawer o sefydliadau'r data mewn datganiad polisi tâl, fel y nodwyd yng nghanllaw Cymru yn 2015 ("Public sector bodies in Wales should have published Pay Policy Statements available to the public" Llywodraeth Cymru, 2015). Roedd yn gymharol syml dod o hyd i'r data perthnasol yn y datganiadau hyn gan eu bod yn gymharol fyr a chryno, yn aml yn llai nag 20 tudalen o hyd.

29. Fodd bynnag, mewn 30 o 54 o achosion dim ond mewn adroddiadau blynyddol, adroddiadau atebolrwydd, datganiadau cyfrifon neu adroddiadau ariannol yr oedd modd dod o hyd i'r data tâl lefel uwch. Gwnaeth hyn hi'n anoddach dod o hyd i'r data perthnasol ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, roedd yn anodd nodi a chyrchu'r ddogfen gorfforaethol gywir. Yn ail, roedd yn anoddach dod o hyd i'r data ei hun gan fod y dogfennau hyn yn hir, yn aml dros 100 tudalen o hyd. Er enghraifft, er y gellir dod o hyd i'r data perthnasol ar dudalennau 7, 9, 13 a 15 mewn sampl o ddatganiadau polisi tâl, ond fe'i canfuwyd ar dudalennau 69, 107, 111 a 127 mewn sampl o adroddiadau blynyddol a dogfennau tebyg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ein canfyddiadau: sectorau

## Iechyd

Hygyrchedd data tâl y GIG/Nifer y cyrff iechyd lle mae data hygyrch (cyfanswm=9)

Tâl uchaf: 9
Cymhareb uchaf/canolrif: 9
Cyflog canolrif: 9
Cymhareb uchel i isel: 0
Cyflog isaf: 3
Datganiad polisi tâl: 0
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: 4

31. Mae pob corff iechyd yn darparu data ar y tâl uchaf a chanolrifol a’r berthynas rhyngddynt. Dyma’r tri chategori cyntaf yn y siart uchod. Mae angen y data hwn o dan reoliadau llawlyfr adrodd ariannol Trysorlys y Deyrnas Unedig.

32. Ar y llaw arall, dim ond yng nghanllaw Cymru mae’r angen i gyhoeddi data ar y tâl isaf a’i berthynas â’r tâl uchaf, a gwneud hynny mewn datganiad polisi tâl. Gwelsom nad oedd mor hygyrch â data arall. Mewn gwirionedd, nid oedd y gymhareb isel i uchel yn hygyrch yn unrhyw un o’r cyrff iechyd.

33. Darparodd cyrff iechyd y data uchod naill ai yn eu hadroddiadau blynyddol, yn hytrach nag mewn datganiad polisi tâl ar wahân, neu ar **wasanaeth tâl rhwng y rhywiau ar-lein llywodraeth y Deyrnas Unedig**.

## Y sector datganoledig

Hygyrchedd data tâl y sector datganoledig/Nifer y cyrff sector datganoledig lle

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mae data hygyrch (cyfanswm=17)

Tâl uchaf: 17
Cymhareb uchaf/canolrif: 15
Cyflog canolrif: 17
Cymhareb uchel i isel: 2
Cyflog isaf: 15
Datganiad polisi tâl: 2
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: 7

34. Fe wnaethom ddewis sampl o 17 o gyrff cyhoeddus datganoledig ar gyfer yr ymarfer hwn, yn seiliedig ar y rhai a arolygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2014 y cyfeiriwyd atynt uchod.

35. Mae hygyrchedd data o'r sampl hwn yn dilyn patrwm tebyg i batrwm iechyd. Pan nodir data yn rheoliadau'r Llawlyfr Adrodd Ariannol h.y. yn ymwneud â'r tâl uchaf a chanolrif, canfuwyd ei fod yn hygyrch. Fodd bynnag, ar gyfer y categorïau eraill, a nodir yng nghanllaw Cymru, gwelsom fod y data yn llai hygyrch. Yr eithriad oedd data ar y cyflog isaf, a oedd yn hygyrch ym mhob achos ond dau.

36. Ar y cyfan, cyrchwyd y data hwn mewn adroddiadau blynyddol. Mewn dau achos yn unig y daethpwyd o hyd iddo mewn datganiad polisi tâl.
Gwnaeth dau gorff eu data yn hygyrch ar dudalen we'r gwasanaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## Awdurdodau lleol

Hygyrchedd data tâl awdurdodau lleol/Nifer yr awdurdodau lle mae data hygyrch (cyfanswm=22)

Tâl uchaf: 22

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymhareb uchaf/canolrif: 19
Cyflog canolrif: 8
Cymhareb uchel i isel: 17
Cyflog isaf: 17
Datganiad polisi tâl: 18
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: 19

37. Fel y nodwyd uchod, mae awdurdodau lleol yn dod o dan reoliadau sy'n deillio o Ddeddf Lleoliaeth (2011) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi data sy'n ymwneud â'r holl gategorïau yn y siart uchod, ac eithrio'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau (a gwmpesir gan reoliadau eraill).

38. Yn gyffredinol, gwelsom fod y data gan awdurdodau lleol yn hygyrch yn y rhan fwyaf o achosion. Darparodd o leiaf 17 o'r 22 awdurdod lleol ddata ym mhob categori, ac eithrio'r cyflog canolrif, er y dylid nodi bod 19 o'r cynghorau wedi cyhoeddi'r gymhareb tâl uchaf/canolrif, a fyddai wedi gofyn am gyfrifo'r cyflog canolrifol.

39. Roedd yn haws cael gafael ar y data lle'r oedd datganiadau polisi tâl ar gael ar-lein, fel y nodwyd yn y Ddeddf Lleoliaeth. Roedd hyn yn wir yn 18 o'r awdurdodau lleol.

40. Mewn tri achos nid oedd data tâl uwch 2017-18 yn hygyrch ac felly cyrchwyd data 2018-19 yn lle hynny.

## Gwasanaethau tân ac achub

Hygyrchedd data tâl gwasanaethau tân ac achub/Nifer y gwasanaethau lle mae data hygyrch (cyfanswm=3)

Tâl uchaf: 2
Cymhareb uchaf/canolrif: 3

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyflog canolrif: 2
Cymhareb uchel i isel: 1
Cyflog isaf: 2
Datganiad polisi tâl: 2
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: 3

41. Mae gwasanaethau tân ac achub hefyd yn dod o dan ofynion Deddf Lleoliaeth 2011, ac am y rheswm hwnnw rydym wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

42. Fel y sectorau eraill dan sylw yn yr adroddiad hwn, nid yw data tâl y gwasanaethau tân ac achub yn gwbl hygyrch, gyda'r siart uchod yn tynnu sylw at fylchau. Tân ac achub yw'r unig sector i wneud ei holl ddata bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn hygyrch.

## Canfyddiadau allweddol

43. Y canfyddiadau allweddol ar hygyrchedd ar-lein a chysondeb data tâl lefel uwch a bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhlith cyrff cyhoeddus yn 2017-2018 oedd:

i. Roedd diffyg cysondeb o ran lleoli data tâl lefel uwch. Er 2015, mae disgwyl i bob corff cyhoeddus gyhoeddi'r data hwn mewn datganiadau polisi tâl, ond yn y rhan fwyaf o achosion canfuwyd bod y data hwn mewn adroddiadau blynyddol neu ddatganiadau cyfrifon yn lle hynny.
ii. Nid oedd yr holl ddata ar gael ar-lein, pan geisiwyd y data fel rhan
iii. o'n hymchwil. Yn benodol, mae canllawiau Cymru yn pennu bod disgwyl i bob corff cyhoeddus gyhoeddi data ar y berthynas rhwng
iv. tâl swyddi uwch a chyflog y gweithwyr ar y cyflog isaf. Fodd bynnag, nid oedd y data hwn ar gael ar-lein gan lawer o fyrddau iechyd na chyrff y sector datganoledig. Ar y llaw arall, roedd data ar y berthynas rhwng swyddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

lefel uwch a’r cyflog canolrifol – sy’n ofynnol o dan delerau llawlyfr adrodd ariannol Trysorlys y Deyrnas Unedig – ar gael ar-lein gan y mwyafrif o fyrddau iechyd a chyrff sector datganoledig.

v. Roedd y data tâl lefel uwch a’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau gan y mwyafrif o awdurdodau lleol a’r gwasanaethau tân ac achub ar gael ar-lein fel y pennwyd dan y Ddeddf Lleoliaeth a chanllawiau Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai anghysondebau o ran ble a sut cyflwynwyd eu data a rhai bylchau o ran ei hygyrchedd ar-lein.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-y-bwlch-cyflog-rhwng-y-rhywiau-data-graddfa-tal-lefel-uwch-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.